Mehefin

The Wildlife Trust
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

Plannu caffi neithdar

Bydd yr ardd yn dod yn fyw nawr gyda gwenyn, ieir fach yr haf a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill sy'n hoff o neithdar, y gallwch chi eu helpu drwy greu caffi neithdar.

1. Dewiswch lecyn heulog, cysgodol yn yr ardd a marciwch wely blodau yn y ddaear.
2. Tynnwch y tyweirch oddi yno a throwch y pridd yn barod ar gyfer plannu.
3. Planwch amrywiaeth o blanhigion i geisio sicrhau fod y neithdar ar gael o'r gwanwyn drwodd i'r hydref. Mae awgrymiadau ar gael ar bob tudalen o'r canllaw hwn.
4. Dewiswch amrywiaethau brodorol dros blanhigion a gafodd eu meithrin na fydd yn debygol o gynhyrchu cymaint o neithdar.
5. Ychwanegwch blanhigion dringo sydd hefyd yn cynhyrchu aeron ac egroes fel atynfa ychwanegol e.e. Gwyddfid, Rhosod Gwylltion, Iorwg a Gwinwydd Duon.
6. Denwch wyfynnod yn y nos gyda phlanhigion sawrus megis Melyn yr Hwyr a Siriol Pêr y Nos.

Creu llety i'r llyffant

Un peth hawdd ei wneud ar gyfer bywyd gwyllt y mis hwn yw creu man y gall Llyffantod a Brogaod gysgodi rhag gwres yr haul a ysglyfaethwyr.

Mewn man glaswelltog, yn agos i bwll os oes un gennych, cloddiwch siambr ryw 3-4cm o ddyfnder gyda mynedfa ar oleddf. Gorchuddiwch hwn â charreg balmant i greu'r guddfan berffaith.

Fel arall, gwnewch dwll yn ochr potyn blodau pridd. Gosodwch hwn mewn man glaswelltog.

Planhigion sy'n blodeuo ym mis Mehefin

Bysedd Y Cŵn
Blodyn Neidr
Cribell Felen
Gwyddfid

Cacynen a gwenyn eraill

Awgrymiadau arolwg: Planwch gaffi neithdar fel y disgrifiwyd uchod a chewch weld beth ddaw heibio!

Cacynen Gyffredin	Cacynen Dingoch	Cardwenynen Gyffredin	*Bombus hypnorum*	*Anthophora plumipes*	Gwenynen Fêl	*Adrena fulva*

Unrhyw gwenyn eraill: